



Polisi ac Egwyddorion Mynediad

Cyflwyniad

Mae nodau gwasanaeth Archifau Morgannwg, sydd wedi eu hamlinellu yn y *Datganiad o Ddiben*, yn cynnwys gwneud ei gasgliadau yn hygyrch i'r cyhoedd a dyma brif swyddogaeth ei holl staff. Mae'r polisi mynediad yn canolbwyntio ar yr egwyddorion sylfaenol a fydd yn sicrhau bod holl randdeiliaid Archifau Morgannwg yn glir ynglŷn â'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu gan yr Archifau yw'r *rhanddeiliaid*, ei ddefnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol, yr ymchwilwyr ar y safle a thu hwnt iddo, ei adnewwyr, y rhai sy'n ei gyllido a'i staff.

Mae deddfwriaeth, polisiau'r llywodraeth (y DU, cenedlaethol a lleol) a blaenoriaethau'r awdurdodau sy'n cyllido'r gwasanaeth yn effeithio ar wahanol bwyntiau sy'n berthnasol i fynediad. Nod yr Archifau yw bodloni pob un o'r rhain yn ei wasanaethau.

Egwyddorion Cyffredinol

Mae Archifau Morgannwg yn cefnogi egwyddorion *Y Safon ar gyfer Mynediad i Archifau (PSQG)*¹, sef:

- Gwasanaethu ei gymuned mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.
- Ceisio gwasanaethu'r **holl** gymuned, a llunio ystod o wasanaethau priodol i fodloni anghenion penodedig a dealliedig y gymuned.
- Ceisio sicrhau bod cymaint o ddefnyddwyr â phosibl yn cael gweld neu ddefnyddio deunydd gwreiddiol tra'n sicrhau bod deunydd cwbl unigryw a gwerthfawr hwnnw'n cael ei warchod yn barhaol. Rhaid cymryd mynediad agored yn ganiataol a rhaid i unrhyw gyfyngiadau gydymffurfio â meini prawf wedi'u diffinio'n gadarn
- Diffinio'r amcanion y mae'n ceisio'u cyflawni ac ymgynghori â'r rhanddeiliaid i ddatblygu ac adolygu'r diffiniad hwnnw. Bydd bodlonrwydd defnyddwyr ymhlith ei brif amcanion
- Cynllunio'n benodol i gyflawni'r amcanion hyn ac ymgynghori â'r rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynllun hwnnw.
- Cael systemau i fesur ei berfformiad o'i gymharu â'i gynlluniau.
- Cael mecanweithiau adborth a gweithdrefnau cwyno, a sianelau cyfathrebu clir rhwng rhanddeiliaid a'i gilydd.

- Ymateb yn benodol i orberfformiad a thanberfformiad ac i adborth rhanddeiliaid yn ei gynlluniau, er mwyn cynnal cydbwysedd priodol o adnoddau ar draws ystod lawn o amcanion.
- Egluro i'r rhanddeiliaid ei ddiffiniad o randdeiliaid, ei nodau, ei gynlluniau, ei berfformiad, sut mae cyfathrebu ag ef a'i ymateb i adborth.
- Gweithredu drwy brosesau y mae'r defnyddwyr yn cyfrannu atynt, prosesau lle mae gan y defnyddwyr gyfrifoldebau yn ogystal â hawliau.

Egwyddorion Arfer Da

- Mae'n amlwg pwy mae'r Archifau'n bwriadu eu gwasanaethu a beth mae'n bwriadu'i gyflawni wrth ddarparu mynediad i'w gasgliadau.
- Er mwyn sicrhau **tegwch** mae'r Archifau yn ceisio bodloni'r defnyddwyr yn ei gymuned ac nid yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw aelod o'r gymuned.
- Mae yna **gyfathrebu** ddwyffordd agored ac effeithiol yn digwydd rhwng yr Archifau a'r gymuned, a gellir archwilio'i bolisïau a gwneud sylwadau arnyn nhw.
- Mae'r Archifau yn **atebol**, yn delio'n effeithiol â sylwadau a chwynion ei ddefnyddwyr, yn adolygu'i berfformiad yn rheolaidd ac yn gwneud gwelliannau, ac mae ei bolisïau'n adlewyrchu barn a diddordebau gwahanol ei randdeiliaid.
- Mae'r Archifau'n cael ei reoli i fodloni ei nodau **yn effeithiol ac yn effeithlon**, mae'n arloesi er mwyn cyflwyno gwell gwasanaethau tra, ar yr un pryd, yn ceisio rheoli risg, ac mae'n adolygu effeithiolrwydd ei waith yn rheolaidd
- Mae'n amlwg **pwy sy'n gyfrifol** am reoli'r gwasanaeth a sut y gellir cysylltu â nhw.
- Mae **cyfranogiad y staff** yn y gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth cywir i'r defnyddwyr yn dilyn canllawiau safonau gwasanaeth clir a'r staff eu hunain sy'n datrys y rhan fwyaf o broblemau gwasanaeth sy'n codi, yn y fan a'r lle.
- Mae pob aelod unigol o'r staff yn **hawdd i'w adnabod** ac mae naill ai wedi cwblhau hyfforddiant llawn ar gyfer ei swydd neu yn weithiwr dan hyfforddiant sy'n cael ei oruchwylio.
- Mae **cyfrifoldebau defnyddwyr** i helpu i sicrhau bod deunyddiau archifol yn cael eu gwarchod yn briodol, i drin y staff yn gwrtais a pharchu defnyddwyr eraill yn cael eu datgan yn glir.
- Mae'r **wybodaeth am wasanaethau** sy'n cael eu darparu gan yr Archifau yn hysbys i'r gymuned mae'n ei gwasanaethu; mae defnyddwyr ynghyd ag eraill a all fod â diddordeb yn gwybod fod ganddynt hawliau mynediad.
- Mae gwybodaeth ynglŷn â **threfniadau ymarferol** mynediad i wasanaethau ar gael; mae'n hawdd canfod y gwasanaethau ac maen nhw ar gael pa bryd bynnag mae'r gymuned eu hangen.

- Mae gan ddefnyddwyr **fynediad rhesymol i offer a all eu cynorthwyo** yn eu hymchwyl, gallant ddod o hyd i gofnodion penodol ac eitemau o ddiddordeb, a phan na ellir ateb eu hymholiadau, mae'r staff yn gwneud eu gorau i'w cyfeirio at y ffynhonnell briodol.
- Gall defnyddwyr **ddewis** o blith sawl gwahanol ffordd o fynediad drwy ystod o wasanaethau.
- Caiff unrhyw **gyfyngiadau** ar fynediad eu datgan yn glir i'r defnyddwyr.
- Gall defnyddwyr gael **copïau** o ddeunydd perthnasol neu, pan fo cyfyngiadau wedi'u gosod arno, rhoddir rhesymau'n glir am hynny.
- Mae'r Archifau'n caniatáu i **ymchwilwyr** wneud defnydd llawn o'i wasanaethau gyda hyder a chyn lleied o ffurfioldeb â phosib.
- Caiff ymchwilwyr **fynediad i wasanaethau ar y safle** a chânt wneud eu gwaith mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer archwilio dogfennau ac sy'n briodol i natur y deunydd
- Caiff y **prosesau a'r safonau gwasanaeth** eu hesbonio'n glir ac maen nhw'n hawdd i'r defnyddwyr eu deall.
- Caiff **mynediad o bell** i wasanaethau yn cynnwys gwybodaeth am gynnwys ei ddarparu a'i ddatblygu i ehangu mynediad ac i ddatblygu cynulleidfaoedd newydd.

Dogfennau cysylltiedig

¹Grwp Ansawdd Gwasanaethau Cyhoeddus: *Standard for Access to Archives*

Yr Archifau Genedlaethol: *Archifau i'r 21ain Ganrif*

Yr Archifau Genedlaethol: *Archifau i'r 21ain Ganrif mewn weithrediad: adnewyddwyd 2012-15*

Archifau Morgannwg: *Datganiad o Ddiben*

Archifau Morgannwg: *Strategaeth Mynediad*

Archifau Morgannwg: *Strategaeth Ymrwymiad Cymunedol*

Archifau Morgannwg: *Polisi Cadwraeth*

Archifau Morgannwg: *Ffioedd a Thaliadau*

Archifau Morgannwg: *Rheolau'r Ystafell Ddarllen*

Archifau Morgannwg: *CanllawTrin Dogfennau*

Archifau Morgannwg: *Amodau Adneuo*

Cyngor Sir Caerdydd: *Cynllun Cydraddoldeb Strategol 'Mae Pawb yn Cyfri' 2012-16*

Cyngor Sir Caerdydd: *Polisi Hyfforddiant a Datblygiad*

Cyngor Sir Caerdydd: *Cynllun yr Iaith Gymraeg*